# GRIFFITH, GRACE WYNNE (1888 - 1963), nofelydd

**Enw:** Grace Wynne Griffith
**Dyddiad geni:** 1888
**Dyddiad marw:** 1963
**Priod:** Griffith Wynne Griffith
**Plentyn:** Elizabeth Grace Hunter (née Griffith)
**Plentyn:** Douglas Griffith
**Plentyn:** Gwilym Wynne Griffith
**Plentyn:** Huw Wynne Griffith
**Rhiant:** W.G. Roberts
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** nofelydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganed yn Chwefror 1888 yn Niwbwrch, Môn, merch y Capten W.G. Roberts. Chwaer iddi oedd Elizabeth Ann Williams, awdur *Hanes Môn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg* (1927). Addysgwyd hi yn ysgol sir Caernarfon. Bu'n nyrsio yn Lerpwl ym mlynyddoedd cynnar yr 20fed ganrif, ac yno y cyfarfu â Griffith Wynne Griffith, Lerpwl; priodwyd hwy yn 1914. Bu farw 1 Mai 1963.

Daeth i amlygrwydd yn 1934 pan ddaeth yn gydradd â Kate Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd yng nghystadleuaeth y nofel. Cyhoeddwyd ei nofel yn 1935 dan y teitl *Creigiau Milgwyn*; nofel Kate Roberts oedd *Traed mewn cyffion*. Adolygwyd *Creigiau Milgwyn* gan yr Athro T.J. Morgan; darniwyd y nofel yn drwyadl a chondemniwyd y beirniad (Dr. Tom Richards) yn chwyrn am ei gwobrwyo.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, 1936, 48-55

Dafydd Jenkins, *Y Nofel datblygiad y nofel Gymraeg ar ôl Daniel Owen* (Caerdydd 1948), 23

gwybodaeth gan ei mab, Huw Wynne Griffith, Aberystwyth

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733079

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu